

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol 14 Hydref 2023

Adroddiad Cyffredinol

Y diffiniad o Aelodaeth Sylfaenol:

Dyma'r lefel broffesiynol sylfaenol i'r rhai sy'n gwneud gwaith cyfieithu mewn amrywiaeth o feysydd cyffredinol ac yn trafod meysydd mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r safon gyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei g'yrfa ac yn gweithio dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol ers blwyddyn o leiaf. Disgwylir iddo/i fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth. Dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Tud. 2

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Tud. 6

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 25

Llwyddo: 10

Dylai gwaith cyfieithwyr ar y lefel Sylfaenol gyfateb i safon cyfieithydd dan oruchwyliaeth cyfieithydd profiadol. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o olygu ar ei waith, felly mae modd maddau ambell wall a llithriad. Mae disgwyl hefyd y bydd y rhai sy'n llwyddo yn yr arholiad ac yn dod yn Aelodau Sylfaenol yn parhau i gael eu goruchwyllo a'u hyfforddi. Er nad yw'r marcwyr yn disgwyl gweld gwaith cwbl ddilychwin, maent yn chwilio am gyfieithiadau cywir, addas a graenus sy'n cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn ffordd naturiol a chywir.

Ychydig dros draean yr ymgeiswyr a lwyddodd yn yr arholiad Sylfaenol y tro hwn. Roedd yn braf sylwi nad oedd gwaith yr un o'r ymgeiswyr at ei gilydd yn awgrymu iddo gael ei drechu'n llwyr gan y ddau ddarn prawf. Serch hynny, gwelwyd brychau yng ngwaith sawl un oedd yn golygu nad oedd modd i'r ymgais lwyddo. O'r rhain, roedd naw wedi cyrraedd y safon ofynnol mewn un darn. Y darn cyntaf oedd hwn ym mhob achos ond un, sy'n awgrymu i'r ymgeisydd dreulio gormod o amser ar dwtio'r darn cyntaf efallai, ac yna rhuthro'r broses o brawfddarllen a chywiro'r ail ddarn. Mae'n hanfodol bwysig, felly, rhannu'r amser sydd ar gael yn gyfartal rhwng y ddau ddarn, a neilltuo digon o amser i'r prawfddarllen a'r mireinio yn ogystal â'r cyfieithu. Mae angen digon o ymarfer a chyfieithu hen bapurau neu ddarnau eraill o'r maint priodol dan amodau arholiad.

Nid oedd dau o'r ymgeiswyr wedi dilyn y cyfarwyddiadau ynglŷn â gofod llinell. (Llawlyfr Arholiadau Aelodaeth Testun 8.5.9 "Rhaid cyflwyno pob sript arholiad ar ffurf gofod dwbl ..."). Roedd hyn yn golygu bod y gwaith yn fwy anodd i'r ymgeiswyr eu hunain ei brawfddarllen. Roedd hefyd yn anodd i'r marcwyr ddarllen y cyfieithiad gyda chymaint o destun wedi'i gywasgu i ofod mor fach.

Roedd y ddau ddarn gosod yn ymwneud â bwyd, y naill yng nghyd-destun yr economi a'r llall yng nghyd-destun y berthynas rhwng bwyta a dementia. Rhoddodd y ddau ddarn fel ei gilydd gyfle i'r cyfieithwyr ddangos eu gallu i gyfieithu brawddegau cymhleth yn raenus ac yn naturiol, a dyma rai enghreifftiau o'u cyfieithu llwyddiannus:

...whether we experience it ourselves, care for someone with dementia, or know someone who receives a diagnosis.

...p'un a ydyn ni'n byw gydag ef ein hunain, yn gofalu am rywun sydd â dementia neu yn adnabod rhywun sy'n cael diagnosis.

This included those who were more conscious of a need to eat healthily because they cannot afford to be ill, and those who are eating less healthily as a result of stress.

Roedd hyn yn cynnwys y rheiny a oedd yn fwy ymwybodol bod angen iddynt fwyta'n iach oherwydd na allant fforddio bod yn sâl a'r rheiny sy'n bwyta'n llai iach o ganlyniad i straen...

...to catch up with family...

...ffordd o ddod â'r teulu at ei gilydd... / ...i dreulio amser gyda'r teulu...

...a gratifying experience...

...yn brofiad sy'n rhoi boddhad...

...other high household bills

...biliau uchel eraill y cartref

...may find that food lacks flavour...

...efallai bod bwyd wedi colli ei flas...

...a range of budget products
...ystod o gynnyrch rhad

...with family
...â'r teulu

Cafodd llawer o'r ymgeiswyr drafferth wrth gyfieithu ambell batrwm gramadegol, er enghraifft, brawddeg gyntaf trydydd paragraff yr ail ddarn, sef *While supporting those with dementia through a change in eating and drinking habits may not be the first thing many of us consider after a diagnosis...* Mae'n wir bod y frawddeg hon yn un heriol, a oedd yn cynnwys llawer o nodweddion yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Nid oedd llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio **Er nad** i gyfleu *While...not*, a gwelwyd **mai nid...** mewn un achos. Hyd yn oed lle roedd ymgeiswyr wedi llwyddo i gyfleu ystyr gyffredinol y frawddeg yn gywir, roedd rhai wedi hepgor *supporting* gan ddefnyddio **trwy newid**, sydd yn awgrymu '*by changing*' yn hytrach na *through a change*. Roedd hyn yn gwneud gwahaniaeth pwysig i'r ystyr. Nifer fechan yn unig o'r ymgeiswyr a lwyddodd i gyfleu ystyr gywir y frawddeg ar ei hyd mewn iaith gystrawennol gywir.

Yn anffodus, gwelwyd enghreifftiau niferus o ddefnydd anaddas a chwithig o eirfa. Disgwylir i gyfieithwyr allu adnabod pa gywair sy'n addas neu'n anaddas yng nghyd-destun darnau digon cyffredinol eu natur. Fel arall, ni fydd yr ystyr yn cael ei gyfleu'n gywir. Nid oedd y dewisiadau canlynol yn taro deuddeg, ac roeddynt yn amharu ar rediad a naturioldeb y mynegiant yn ogystal ag ar yr ystyr:

cysidro (*considered [themselves]*)
torri nôl (*cut back*)
diffynwyr (*respondents*)
cynilo ar gostau (*to cut costs*)
gorddryswch (*dementia*)
sawl (*those*)
ymladd â'r cynnydd mewn (*struggle with increased...*)
boddhaol (*gratifying*)
ffeindio (*find*)
blasu'n anghynnes (*taste unpleasant*)
detholiad o gynnyrch rhad (*range of budget products*)
dros y cyfan (*overall*)
llawer/nifer (*so many*)
bwyta'n gytbwys (*a healthy diet*)
yn fwy gofalus (*more conscious of the need to*)

Ar ben hynny, gwelwyd sawl enghraifft o gystrawen wallus:

arferent nhw
ar rai bwydydd iddynt eu hoffi o'r blaen
bod gadael i bobl ddewis y bwyd eu bod yn ei fwyta
effeithio eu harferion
p'un ai y byddwn
p'un ai a ydym

Ymhlith y gwendidau a welwyd yn y gwaith oedd diffyg ymwybyddiaeth o'r angen i hepgor yr arddodiad **i** o flaen y ferfenw yn y Gymraeg. Gwelwyd sawl enghraifft: **bwysig hefyd i ystyried**, **fforddio i fod yn sâl**, **anoddach i fwyta**, **hanfodol i roi**. Roedd rhai hefyd yn ansicr ynghylch hepgor y fannod (*of the*) yn gywir, **chwarter o'r ymatebwyr**, **chwarter o'r bobl**, **chwarter o'r rheiny**

Roedd tuedd hefyd i hepgor rhagenwau mewnol, e.e. **bwyydydd roedden nhw'n arfer hoffi, yr hyn maent yn bwyta, beth maent yn fwyta.**

Nid oedd pob ymgeisydd wedi datblygu'r gallu i ddefnyddio'r amhersonol yn briodol:

Caiff ei rhagweld... (*It's predicted...*)

Cadarnheir yr ystadegau hyn bod... (*These statistics confirm that...*)

Gwelwyd enghreifftiau o ddiffyg gafael ar y treigliadau wrth i dreigladau diangen ymddangos yma a thraw, e.e. **yn weithgaredd bleserus, yn rai, rhai ddigwyddiadau.** Roedd llawer wedi treiglo goddrych y ferf e.e. **dywedodd fwy, gall bobl, gall fwyta, gall ddementia,** ac roedd eraill wedi methu â threiglo'n feddal y gwrthrych sy'n dilyn y ferf e.e. **a gymerodd rhan, wrth i gostau cynyddu, wrth i gostau codi, a chanfu bod.** Roedd enghreifftiau hefyd o fethu â threiglo enw benywaidd unigol ar ôl y fannod, e.e. **y pobl hynny,** ansoddair yn dilyn enw benywaidd unigol, e.e. **archfarchnad gwahanol,** geiriau'n dilyn arddodiaid, e.e. **am rhywun, dros dau-draean, chwilio am blas.**

Roedd rhai ymgeiswyr wedi gorgyfieithu, gan ychwanegu gormod at y testun gwreiddiol a chrwydro'n rhy bell o'r ystyr a fwriadwyd:

A study...

...astudiaethau diweddar...

The survey examined...

Pwrpas yr arolwg oedd edrych ar ...

...stress

...straen bywyd

...other high household bills

... biliau cartref uchel eraill fel trydan a nwy

...28%

...dros 28%

...food shops

...siopa bwyd yn enwedig archfarchnadoedd

Wedi dweud hynny, roedd yr enghreifftiau o dangyfieithu drwy hepgor geiriau yn fwy niferus. Er bod brawddeg gyfan neu ran o frawddeg ar goll mewn ambell fan, mae hepgor hyd yn oed gair unigol yn gallu gwneud yr ystyr yn fwy niwlog. Gellir gweld o'r enghreifftiau isod mai geiriau di-nod yr olwg ydynt. Serch hynny, mae awdur y darn wedi cynnwys y geiriau yn y gwreiddiol am reswm penodol a dylai'r cyfieithydd sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu cynnwys yn y cyfieithiad hefyd.

around (h.y. tua, oddeutu)

more (more difficult, hefyd more than)

generally

other

regularly

many

still (h.y. yn parhau, yn dal, o hyd)

Gall hepgoriadau o'r fath beri i'r cyfieithiad ymddangos yn ddiofal a byddai prawfddarllen gofalus wedi helpu i osgoi hepgoriadau esgeulus o'r fath. Mae'r un peth yn wir am y camsillafu:

**costau bwy
yn eu hoff ynghynt
er mwy
gwawhanol
mae'n daw yn rhan
ymdopi a biliau bwyd
mynd a bocs bwyd
protîn
siopa bwyd (food shops)**

Er bod ambell lithriad yn naturiol o dan amgylchiadau arholiad, mae'n destun siom gweld y mân wallau hyn. Hoffwn bwysleisio pwysigrwydd darllen y gwreiddiol yn ofalus ac ystyried cyd-destun y darn, gan annog yr ymgeiswyr i ymarfer eu sgiliau prawfddarllen fel bod sylwi ar fân lithriadau yn dod yn ail natur iddynt. Trwy wneud hynny, gallant wneud cyfiawnder â'u hunain trwy gynhyrchu eu gwaith gorau. Hoffwn longyfarch yr ymgeiswyr a lwyddodd i wneud hynny; roedd yr enghreifftiau niferus o gyfieithu llwyddiannus yn galonogol.

Yn olaf, ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw darllen Cymraeg safonol yn eang er mwyn datblygu ymwybyddiaeth gynhenid o gywair a chystrawen raenus. Bydd hynny'n cynorthwyo'r ymgeiswyr i wneud cyfiawnder â'u crefft.

I gloi, rwy'n llongyfarch y deg ymgeisydd llwyddiannus ac yn annog y lleill i ddyfalbarhau, gan fod nodweddion da ym mhob un o'r papurau. Diolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am eu cefnogaeth a'u diwydrwydd ac i'r marcwyr am eu gwaith gofalus a thrylwyr.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Gymraeg
Rhagfyr 2023**

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 6

Llwyddo: 3

Braf gallu dweud bod y safon yn yr arholiad hwn yn gyffredinol dda a hyd yn oed yng ngwaith yr ymgeiswyr a fethodd â chyrraedd y nod gwelwyd ymwybyddiaeth o ofynion a sgiliau cyfieithu, dealltwriaeth dda ar y cyfan o'r gwreiddiol ac enghreifftiau o gyfieithu cywir, meddylgar a chreadigol.

Cafodd pawb fwy o hwyl ar y darn cyntaf na'r ail ddarn, ond roedd yna ambell i frawddeg ddigon lletchwith yn yr ail ddarn a achosodd drafferthion i nifer o'r ymgeiswyr - o ran geirfa ac o ran cystrawen. Dylai'r ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cymryd cyd-destun ymadroddion i ystyriaeth wrth gyfieithu er mwyn cyfleu'r ystyr yn gywir. Anogir ymgeiswyr i ddarllen pob darn yn ofalus ar ôl ei orffen gan 'wrando' ar y geiriau yn eu meddwl. Yn aml wrth 'wrando' y daw gwallau ac ymadroddion chwithig i'r amlwg.

Rhaid pwysleisio hefyd y dylai ymgeiswyr geisio rhannu eu hamser yn weddol gyfartal rhwng y ddau ddarn ac y dylent fod yn gynnwl a phwrpasol wrth ddefnyddio troednodiadau. Nid yw ymgeiswyr yn cael eu cosbi am gynnwys troednodiadau, a gall hynny fod yn beth da ar adegau - e.e. i nodi y byddent wedi hoffi gwirio rhyw derm penodol, yn yr achos hwn, y geiriau *cywydd* ac *englyn*. Ond mae ysgrifennu nifer fawr o droednodiadau yn mynd â thipyn o amser yn yr arholiad y byddai'n rheitiach ei ddefnyddio i ddarllen dros eu gwaith yn ofalus.

Dyma rai enghreifftiau o lithriadau a chyfieithu gwael:

Darn 1

hanes pobl Ddu

the history of Black people

Nid yw hwn yn anghywir ond yr ymadrodd arferol a ddefnyddiwyd gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr yw **Black History**.

[g]orfodol

statutory/essential

'Compulsory' yw'r ystyr cywir.

ennill ei blwyf

is put into practice / gains acceptance

Byddai 'establishes itself' / 'becomes embedded' yn agosach i'r ystyr yn Gymraeg.

profi

examines

'Experience' yw'r cyfieithiad cywir.

a fu'n flaengar

who were progressive

'At the forefront' / 'who led the way' / 'prominent figures' yw'r ystyr cywir.

cyd-destun Cymreig

Welsh language context

Nid 'Cymraeg' a welir yma. 'Welsh context' sy'n gywir.

hanesion cadarnhaol

affirmative accounts

Tueddir i ddefnyddio 'affirmative' mewn ystyr penodol iawn wrth ymdrin â phobl o leiafrifoedd ethnig. Gwell fyddai 'positive stories/histories'.

yn y cyswllt hwn

in this connection / as it relates to this

'In this regard' neu 'in this respect' fyddai'r ymadrodd naturiol yn Saesneg.

Betty Campbell a'i thebyg

Betty Campbell and her peers / Betty Campbell and her kind

Nid yw **peer** yn gywir a gallai **and her kind** beri tramgwydd yn y cyd-destun hwn. Gwell dweud 'and those like her'.

Darn 2

ei milltir sgwâr

in her local mile / in her own backyard

Nid yw'r cyntaf yn ymadrodd naturiol yn Saesneg ac ni ddefnyddir yr ail yn y cyd-destun hwn.

Llywydd

Chairman.

'President' syn gywir.

Merched y Wawr

Womens' Institute.

Dau gorff gwahanol yw'r rhain ac nid oes angen cyfieithu 'Merched y Wawr'.

wedi cael blas ar gerdded

had gotten a taste for walking

Cafodd nifer eu baglu gan yr ymadrodd *cael blas ar* – yr ystyr yw 'enjoy'. Mae **gotten** yn ffurf Americanaidd ac ni ddylid ei ddefnyddio wrth ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa Brydeinig.

darpar aelodau

provisional members

'Prospective members' sy'n gywir.

dysgwyr

learners

Y duedd yn Gymraeg yw defnyddio 'dysgwyr' i gyfeirio at ddysgwyr y Gymraeg ond ni fyddai hyn mor amlwg i gynulleidfa ddi-Gymraeg. Gwell defnyddio 'Welsh learners'.

[c]wmniaeth

Fellowship

Ystyr 'cwmniaeth' yn y fan hon yw 'company' neu 'companionship'. Mae ystyr 'fellowship' yn wahanol.

ochr yn ochr

side by side

Tybiodd sawl un fod hyn yn cyfeirio at y broses o gerdded, ond yr ystyr yw 'along with' neu 'as well as'.

chwiliwyd am gerddi addas

suitable poems were sought for/looked for

Cystrawen chwithig. Gwell defnyddio cystrawen weithredol fel 'They searched for suitable poems'.

I gyd-fynd

to compliment

'Complement' yw'r sillafiad cywir. Mae **compliment** yn golygu rhywbeth hollol wahanol.

[t]jaith

trip / journey / hike

'Walk' yw'r cyfieithiad gorau yn y fan hon.

...oedd mewn golwg

What was aimed at / thats what was in mind

Cystrawen chwithig yn Saesneg. Gwell fyddai rhywbeth fel 'The aim was (to compose...).'

Gan obeithio

whilst hoping

Nid oes raid cyfieithu 'gan' ar ddechrau is-gymal. Byddai 'hoping' neu 'in the hope that' yn gwneud y tro.

Cyfansoddiadau bach digon hwylus

Lighthearted and sufficiently small compositions

Nid **sufficient** yw ystyr *digon* yn y fan hon ond 'quite' neu 'fairly' ac mae'r gair *digon* yn amodi *hwylus* ac nid *bach*.

pennill neu ddau

a line or two

Pennill sydd dan sylw yma, felly 'verse' neu 'stanza'.

a'u trosglwyddo i eraill

and transmit/transfer them to others

Nid yw'r ddau air hyn yn addas o fewn y cyd-destun. Byddai 'share' yn well.

roedd tuedd i ymuno

there was a trend of getting together

Dylid cofio bod y Gymraeg yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o ffurfiau a chystrawennau amheronol na'r Saesneg. 'People tended to get together' fyddai'n cyfateb yn naturiol yn Saesneg.

Cerdded, Cerdd, Cynefin – a Chacen.

Ni chafodd yr un ymgeisydd ei gollfarnu am beidio â chreu cyflythreniad yn y cyfieithiad, heblaw am un a ddewisodd **Hike** er bod gweddill y darn yn pwysleisio taw tro bach digon hamddenol oedd o dan sylw.

Cyfieithu da/dyfeisgar:

Darn 1

Datblygu

plays out

Mae 'develop' yn hollol gywir ond braf gweld un ymgeisydd yn cyfieithu'n fwy creadigol.

cymryd y camau cywir

heading in the right direction

Mae 'taking the right steps' yn hollol gywir ond unwaith eto braf gweld ymgeisydd sy'n cynnig cyfieithiad llai llythrennol.

heb ganolbwyntio...bob tro

without concentrating exclusively/at every turn

heb amheuaeth

without misgivings

Darn 2

wrth ei bodd
in her element

ei chyfnod
her term/tenure

Gwell na 'time' am ei fod yn cyfeirio at gyfnod penodol mewn rôl benodol.

cael yr awen i greu
get...creative juices flowing / find their muse/ might be inspired.

darpar aelodau
prospective members

[t]ro bach digon hamddenol
quite gentle and easy little walks / stroll

Cerdded, Cerdd, Cynefin – a Chacen

Ramble, Rhyme and Recording Habitats - and Really Good Cake

Rhaid canmol yr ymgeisydd hwn o gofio mor anodd yw cyfieithu sloganau neu gyflythrennu bachog fel arfer, ac anos fyth o dan amodau arholiad.

I gloi, carwn longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus ac annog y lleill i ddyfalbarhau, gan fod nodweddion da ym mhob un o'r papurau. Byddwn yn eu hannog i barhau i ymarfer eu crefft, darllen yn eang er mwyn ennill meistrolaeth lwyrach ar deithi'r ddwy iaith, a darllen dros eu cyfieithiadau yn ofalus, gan 'wrando' ar y geiriau yn eu meddwl. Yn aml wrth 'wrando' y daw gwallau ac ymadroddion chwithig i'r amlwg.

Carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac aelodau'r Bwrdd Arholi Testunau am eu hymroddiad a'u gwaith proffesiynol a gofalus.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Saesneg
Rhagfyr 2023**